# Beth mae fel i fod yn Llywodraethwr ym Merthyr Tudful…

Rydw i wedi bod yn Llywodraethwr Ysgol ers tair blynedd, ac wedi mwynhau bod yn Llywodraethwr gymaint fel fy mod wedi cael fy mhenodi yn Llywodraethwr ar ail Gorff Llywodraethu.






## Rhoi yn ôl…

Fel Llywodraethwr, rwy'n teimlo fy mod yn rhoi yn ôl i'r gymuned yn ogystal â gweithio fel tîm i sicrhau bod gan ein plant, cenhedlaeth y dyfodol yr addysg o'r safon orau a bod safonau addysg yn codi.

## Gwir ddiben…

Fel Llywodraethwr, dydych chi ddim yno i gadarnhau penderfyniadau, rydych yn cyfrannu trwy gefnogi a herio'r Pennaeth trwy gasglu safbwyntiau, gofyn cwestiynau a thrafod beth sydd orau i'r ysgol.

## Datblygu sgiliau newydd ac adeiladu ar rai presennol…

Mae bod yn Llywodraethwr yn ffordd dda i ddatblygu sgiliau a datblygu'r sgiliau sydd gennych yn barod. Peidiwch boeni nad yw eich gyrfa yn berthnasol i addysg, mae llywodraethwyr angen pobl o bob cefndir, sy'n gallu dod a'u gwybodaeth broffesiynol i'r ysgol. Does dim angen cymwysterau ffurfiol, dim ond ymroddiad a pharodrwydd i ddysgu, gofyn cwestiynau a gwrando.

## Beth wnewch chi?

Byddwch yn cyfrannu at gyfeiriad yr ysgol at y dyfodol, gwneud penderfyniadau am gyllideb a staffio, a gwneud yn siŵr bod yr ysgol yn darparu ar gyfer pob disgybl yn cynnwys rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Llywodraethwr yn rôl gwerth chweil ac rydw i'n mwynhau bod yn rhan o dîm sy'n gweithio i wella cyfleoedd plant sy'n haeddu'r addysg orau.

**Ryan James**

**Partneriaeth Ddysgu Taf Bargoed & Ysgol Gynradd Gymunedol Troedyrhiw**